

Ble rwy’n byw: poster digidol yn esbonio sut mae cymunedau, teulu ac athroniaeth yr ysgol yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau cwricwlwm a threfniadau.

Gogledd Sir Benfro

Mae ardal gogledd Sir Benfro yn ardal wledig ac amaethyddol gyda’r mwyafrif o bobl yn swyddi llafur neu heb addysg bellach. Yn ogystal â hyn er nad yw’r ardal yn dioddef o lawer o dlodi nid yw’n ardal freintiedig chwaith. Mae hyn yn wahanol iawn i sefyllfa de Sir Benfro, Mae de’r sir yn ardal freintiedig iawn gyda llawer o bobl broffesiynol yn symud i mewn i’r ardal. Oherwydd hyn mae de’r sir yn saesnegedd iawn ac mae llawer iawn yn ddi-gymraeg. Ar y llaw arall nid llawer o fewnfudo wedi digwydd yng ngogledd y sir ac felly mae wedi parhau i fod yn ardal Gymraeg iawn gyda mwyafrif helaeth o’r ysgolion yn yr ardal ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig. Mae gan yr ardal llawer o gymunedau bach gyda theuluoedd sydd wedi byw yn yr ardaloedd am genedlaethau. Mae’r ardal wedi newid tipyn yn ddiweddar gyda llawer o bobl yn symud i’r cymunedau. Mae hyn yn golygu fod ein hysgolion gwledig yn gorfod delio gyda phroblem megis cyffuriau yn ogystal ag ymateb i’r gostyngiad yn nifer o siaradwyr Cymraeg yr ardal.

Hybu'r Gymraeg (Rôl yr ysgol a rôl y rhiant)

Mae’n ddyletswydd ar ein hysgolion i hybu defnydd y Gymraeg yn enwedig os rydym am gyrraedd nod y cynulliad o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae athrawon yn medru datblygu ar sgiliau Iaith y disgyblion a defnyddio’r Gymraeg yn drawsgwricwlaidd a gall eu defnyddio yn bron pob maes dysgu a phrofiad. Mae trochi’r disgyblion yn y Gymraeg trwy ddarlenn storiâu yn gyson, Cyfleoedd chwarae rôl a defnyddio’r Gymraeg yn gyson tu fewn a thu allan i’r ystafell dosbarth yn sicrhau fod gan y disgyblion yr hyder i ddefnyddio’r Gymraeg. Odan y Cwricwlwm i Gymru newydd mae fwy o bwyslais ar deilwra’r dysgu ac ystod y cwricwlwm i’r ardal/ysgol unigol, Golygai hyn fod gan yr athrawon y rhyddid i ddewis storiâu/themâu sydd yn addas i’r ardal ac yn denu diddordeb y disgyblion. Yng Ngogledd Sir Benfro mae tafodiaith yn rhan fawr o’r diwylliant ac felly mae ganddo ddylanwad sylweddol ar sut mae ysgolion yn defnyddio’r cwricwlwm. Mae gan y rhieni a’r gymuned cyfan ran i chwarae wrth hybu’r Gymraeg, felly mae’n bwysig ein bod yn sicrhau fod gan y rhieni’r sgiliau sydd angen i wneud hyn. Mae gwefan ‘Stats Wales’ yn nodi fod 12% o oedolion yn Gymru yn ddiffyg sgiliau iaith sylfaenol.

Dysgu trwy chwarae

Mae dysgu trwy chwarae yn rhan fawr o’r cwricwlwm ac athroniaeth y cyfnod sylfaen. Mae llawer o ymchwil yn dangos pa mor werthfawr mae dysgu trwy chwarae yn y C.S ac felly mae wedi cael dylanwad mawr ar y cwricwlwm.

- Dysgu i chwarae gydag eraill
- Datrys problemau
- sgiliau echddygol manwl
- datblygu dychymig
- datblygu dysgu annibynnol

Mae newidiadau yn y cwricwlwm (Cwricwlwm i Gymru) yn golygu fod gan athrawon llawer mwy o ryddid wrth gynllunio ystod eu gwersi. Mae hyn yn golygu bydd athrawon ac ysgolion yn gallu creu cwricwlwm sydd yn unigol i’r ardal.

Cyswllt Rhieni

Mae Cyswllt rhwng y rhiant/gofalwr a’r ysgol yn rhan allweddol o ethos ysgolion Cymru. Mae Estyn yn nodi Ysgol Gynradd Pencoed fel ysgol arloesol yn y ffordd maent yn cysylltu gydag ac yn gwneud rhieni yn rhan o addysg eu plant. Mae gan yr ysgol Family Engagement Officer (FEO) sydd yn trefnu gweithgareddau gyda’r rhieni. Mae’r FEO yn trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer yr oedolion Megis ‘Beyond the Book Bag’ mae hyn yn sicrhau fod gan yr oedolion y wybodaeth a’r sgiliau er mwyn gallu cefnogi dysgu eu plant. ‘The pupils involved have all reported a far greater understanding of the needs of others and have developed greater confidence in communicating with different generational groups. (ESTYN, 2020).

Sut mae arian yn effeithio ar addysg ar gwricwlwm.

Sut mae ardaloedd breintiedig a ddifreintiedig yn amrywio o ran darpariaeth addysg. Yn llawer o achosion ysgolion yn ardaloedd difreintiedig mae angen i athrawon fod yn greadigol yn y ffordd roeddent yn dehongli’r cwricwlwm er mwyn gallu darparu addysg werthfawr.

“It is shameful that last year almost 100,000 children in England left education at 18 without proper qualifications. It is particularly unacceptable that children growing up in the poorest areas of the country and children with special educational needs are most likely to leave school without reaching basic levels of attainment”. (Anne Longfield, 2019)

Yng Nghymru mae 2% o ddisgyblion yn gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau gyda’r mwyafrif o rain yn dod o ardaloedd di freintiedig ac felly yn yr ardaloedd yma mae ysgolion yn ceisio creu polisïau ymarferodd i darged i’r broblem yma.

Cyfeiriwch at dabl a graff isod Mae bechgyn sydd yn derbyn fsm yn cyflwyno llawer llai ar draws pob maes dysgu yn y cyfnod sylfaen

Mae ysgol y Castell yn sir Gaerfyrddin wedi cael ei nodi gan Estyn fel achos o arfer da wrth ddatblygu cwricwlwm sydd yn ymladd tlodi. Yn eu hadroddiad ‘Mynd i’r afael â Difreintedd a Gwella Safonau’ mae’r ysgol yn uwcholeo pwysigrwydd rôl yr ysgol.

‘Mae gan addysg ran sylfaenol i’w chwarae i helpu codi pobl allan o dlodi a diogelu’r rheini sydd mewn perygl o fod mewn tlodi ac o dan anfantais. Mae cysylltiad cadarn rhwng cyrhaeddiad addysgol gwael, medrau isel ac iechyd a lles gwael.’ (Ysgol y Castell, 2018)

Mae Grigg yn nodi fod tlodi yn un o sawl ‘Roadblock’ sydd yn rhwystro plant rhag dysgu mae Grigg hefyd yn nodi fod Saesneg fel ail iaith yn ‘Roadblock’ enfawr i ddysgu plentyn ac felly yn gymunedau lle mae yna lawer o deuluoedd Saesneg fel ail iaith mae hyn yn cael dylanwad enfawr ar athroniaeth yr ysgol a sut mae’r ysgol yn cynllunio ei chwricwlwm.

- ESTYN, 2020. *Involving Parents In Education* | Estyn. [online] (<https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/involving-parents-education>) [mynediad: 15 July 2020].
- ESTYN, 2020. *Tackling Poverty Through Raising Aspirations* | Estyn. [online] Estyn.gov.wales. (<https://www.estyn.gov.wales/document/tackling-poverty-through-raising-aspirations>) [mynediad: 15 July 2020]
- Longfield, A., 2020. *Almost One In Five Children Left Education At 18 Last Year Without Basic Qualifications* | Children's Commissioner For England. [online] Children's Commissioner for England. (<https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2019/09/20/almost-one-in-five-children-left-education-at-18-last-year-without-basic-qualifications/>) [mynediad: 15 July 2020].
- Llywodraeth Cymru, 2020. *Results By Free School Meal Entitlement And Gender*. [online] Statswales.gov.wales. (<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/results-by-freeschoolmealentitlement-gender>) [mynediad: 15 July 2020].

Defnyddio Technoleg tu fewn y Cwricwlwm Newydd.

Mae bron pob swydd yn gofyn am sgiliau digidol sylfaenol ac felly mae rhaid bod ysgolion yn gallu datblygu'r sgiliau yma a symud i fwrdd o’r meddylfryd nid yw digital competency yn rhywbeth angenrheidiol i bawb.

‘We live in an increasingly technological age and have decided to to embrace this as a means to involve parent and carers more fully in their childs development.’ (ESTYN, 2019). Gyda chyfryngau cymdeithasol yn chwarae rôl mor flaengar yn ein bywydau pob dydd mae ysgolion yn dechrau adnabod eu defnydd yn addysg. Mae defnyddio cyfryngau sydd wedi creu ar gyfer addysg megis ‘Seesaw’ yn galluogi i rieni gweld yr hyn mae eu plant yn gwneud yn y dosbarth.

Mae pwyslais Donaldson a’r cwricwlwm newydd ar y gallu i ddatblygu sgiliau digidol trosglwyddadwy ac mae dysgu plant sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.

Ar y llaw arall mae rhai megis ysgolion Steiner yn anghytuno yn llwyr gyda phwysigrwydd technoleg yn addysg. Credau Steiner fod technoleg yn rhoi pellter rhwng y dysgwr ar fyd naturiol a dylai plant cael addysg sy’n agos i natur. mae hwn yn debyg iawn i ethos Fforest Schools. credau nhw fod;

- Adeiladu hyder ac annibyniaeth.
- datblygu empathi tuag at eraill a natur.
- datblygu ffitrwydd corfforol.
- Gwella iechyd a lles.
- Dysgu trwy brofiadau.
- Gwella ymddygiad.

